**COFNODION CYFARFOD ANARFEROL O'R CYNGOR A GYNHALIWYD AR 17 EBRILL 2024**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr

Mark Lloyd Griffiths (Cadeirydd)
Mark Thomas
Troy Maclean
Peter Jones
Geoffrey Jones
David Meirion Jones
Dewi Prysor
Morwenna Pugh
Gareth Davies
Rory Francis (ar Zoom)
Linda Ann Jones (ar Zoom)
Dafydd Dafis (ar Zoom)
Ellen Pugh, Dirprwy Glerc
Sioned Graham-Cameron, Clerc y Dref

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Y Cynghorydd Eifiona Davies.

**2. Datgan Buddiannau**

Datganodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis fuddiant yn eitem 3 ac eitem 5 are y rhaglen.

Datganodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh fuddiant yn eitem 3 ac eitem 5 ar y rhaglen. Gadawodd y ddau yr ystafell pan drafodwyd yr eitemau hyn.

**3. Materion y dylid eu hystyried, ym marn y Cadeirydd, yn y cyfarfod fel rhai brys.**

Adroddodd y Cadeirydd bod un tendr wedi ei dderbyn am yr offer Golff Gwirion yr oedd y Cyngor Tref wedi ei hysbysebu ar werth. Roedd Y Cynghorydd Dafydd Dafis wedi cynnig £300 am yr offer a derbyniodd y Cynghorwyr ei gynnig.

**4. Celf Gyhoeddus**

Ystyried cynllun celf gyhoeddus, dan yr hwn y bwriedir gosod murlun ar wal yn y dref. Cynigiodd Y Cynghorydd Linda Ann Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Mark Thomas bod y Cyngor Tref yn derbyn hyn mewn egwyddor a gofyn am fwy o wybodaeth pan fyddai ar gael, a chytunodd pawb.

**5. Cyflogau Clerc a Dirprwy Glerc y Dref**

Cyflwynwyd adroddiad ar gyflogau a'r angen i unioni'r sefyllfa mewn perthynas â chodiadau cyflog cenedlaethol a ddaeth i rym y llynedd. Cynigiodd Y Cynghorydd Linda Ann Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Mark Thomas bod y sefyllfa yn cael ei hunioni a chytunodd pawb.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.20pm

DRAFT